**Senedd Cymru**
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Ymchwiliad:** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
**Ymateb gan:** Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

-

**Welsh Parliament**
**Equality and Social Justice Committee**
**Inquiry:** Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015
**Evidence from:** Wales Council for Voluntary Action

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Gwaith craffu ar ôl deddfu

## YMATEB GAN CGGC

1) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

2) Diolchwn i'r Pwyllgor am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar y gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## CYFLWYNIAD

3) O waith gofalwyr di-dâl, i glybiau chwaraeon, presgripsiynwyr cymdeithasol, canolfannau cymunedol, grwpiau iechyd meddwl a mudiadau cefnogi, mae sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr Cymru yn chwarae rôl hanfodol mewn llesiant Cymru.

4) Felly, er mwyn gwireddu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n hanfodol bod y sector gwirfoddol wrth wraidd pob

sgwrs a phenderfyniad ynghylch y ddeddf. Rhaid iddo fod wrth y bwrdd mewn trafodaethau cynnar a pharhaus ar lunio polisïau cenedlaethol a gyda chyrff cyhoeddus ynghylch gwasanaethau sy'n cyflawni nodau'r Ddeddf. Mae CGGC yn hyrwyddo'r Ddeddf, ond yn anffodus, nid yw wedi cyflwyno newid trawsnewidiol yn ei degawd cyntaf.

5) Mae perygl na fydd y Ddeddf yn bodloni ei hamcanion os bydd yn parhau heb newidiadau sylweddol. Rhaid hefyd rhoi ystyriaeth i brosesau gorfodi gwell i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn briodol ac yn cyflawni ei nodau.

6) Yn ôl ymgysylltiad CGGC, nid yw'r sector gwirfoddol yn teimlo o hyd ei fod yn cael ei drin yr un peth â chyrff statudol mewn trafodaethau am weithredu'r Ddeddf. Mae hyn er gwaethaf sefyllfa unigryw ein sector sy'n ein galluogi i fod yn fwy hyblyg ac i ymhél yn well â chymunedau ac unigolion na chyrff cyhoeddus. Mae methiant i ymddiried yn y sector gwirfoddol a'i werthfawrogi yn golygu ein bod yn cael trafferth cryfhau lleisiau'r rheini ar lefel llawr gwlad. O ganlyniad, nid yw'r cymunedau a fyddai'n elwa fwyaf ar gael Nodau'r Ddeddf wedi'u gwireddu yn cael mewnbwn i benderfyniadau a wneir o ran ei gweithrediad. Mae hyn yn difetha'r ymddiriedaeth ac yn tanseilio bwriadau'r Ddeddf.

7) Mae gan y sector gwirfoddol gydberthynas gref â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol trwy hwylusiad CGGC. Ers i'r Ddeddf gael ei lansio, mae mudiadau gwirfoddol wedi bod yn awyddus i weithio gyda phartneriaid statudol i helpu i gyflawni'r Nodau Llesiant. Rydym yn teimlo bod angen diwygiad systematig,

gan gynnwys cyllid priodol, i wneud cynnydd ar y nod hwn. Rydym yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio ei hymatebion i'r argymhellion yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025.

## CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

8) Isod ceir crynodeb o'n hargymhellion mewn perthynas â'r Ddeddf. Cynigir rhagor o fanylion yn ddiweddarach yn yr ymateb hwn.

Effeithiolrwydd y Ddeddf

- Mae symud tuag at waith ataliol yn dyngedfennol yn y nod o greu Cymru Iachach, ynghyd â lleihau'r pwysau ar wasanaethau aciwt. Rhaid rhoi blaenoriaeth i hyn. Ond, er mwyn i'r sector gwirfoddol chwarae rhan lawn yn yr agenda ataliol hon, bydd angen adnoddau cynaliadwy a chyson.

- Mae angen clir i gyflwyno fframwaith mwy cyfarwyddol er mwyn i gyrff cyhoeddus gyfrannu at Gymru o Gymunedau Cydlynus. Y cam cyntaf hanfodol fyddai polisi cymunedau a luniwyd ar y cyd.

- Yn unol ag argymhelliad yr adroddiad diweddar gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai pob corff cyhoeddus roi strategaethau gwirfoddoli sefydliadol ar waith.

- Er bod y garreg filltir bresennol ar gyfer gwirfoddoli o dan y Ddeddf wedi'i chyrraedd, rhaid i'r ymdrechion ganolbwyntio nawr ar gynnal a mynd y tu hwnt i'r garreg filltir hon. Bydd mynd ati i

weithredu'r Dull Newydd o Wirfoddoli yng Nghymru yn llawn yn hanfodol i gefnogi'r nod hwn.

Canllawiau mwy clir

- Dylai fod canllawiau clir ar sut mae arian a glustnodir ar gyfer atal yn cael ei wario er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Nodau'r Ddeddf.

- Dylai cyrff cyhoeddus gael arweiniad i lynu at y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau y gall partneriaid o'r sector gwirfoddol chwarae eu rhan i'w helpu i gyflawni Nodau'r Ddeddf.

- Pan fydd y Ddeddf yn llwyddiannus a'r cerrig milltir cenedlaethol wedi'u cyrraedd, dylid cyhoeddi canllawiau ar sut i gynnal y cerrig milltir.

Cryfhau, gorfodi a gweithredu

- Ar y cyfan, mae CGGC yn cefnogi'r 11 o argymhellion a gyflwynwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025.

- Dylid diwygio'r Ddeddf i roi mwy o bwerau i'r Comisiynydd. Dylid ystyried cynnwys adnoddau ar gyfer gorfodi, cymelliadau ar gyfer cydymffurfio a chanllawiau mwy eglur ar sut i roi'r Ddeddf ar waith.

I'r diben hwnnw, awgryma CGGC adolygu pwerau Comisiynwyr eraill Cymru er mwyn deall yn well sut maen nhw wedi'u cymhwyso ac, yn ei dro, ystyried a yw pwerau o'r fath wedi cael effaith bositif.

- Mae angen mwy o waith craffu, a gwaith craffu mwy ffurfiol ar fforymau partneriaeth yng Nghymru, fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol. Gall hyn sicrhau bod uchelgeisiau'r Ddeddf yn cael eu cyflawni, a bod pob partner yn cyfrannu at y broses i'r un graddau.

- Byddai ehangu pwerau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gael mwy o drosolwg o sut mae cyrff cyhoeddus yn cynnal ymgysylltiadau cyhoeddus o ran y Ddeddf yn helpu i fagu ymddiriedaeth y cyhoedd.

## CYMRU IACHACH

9) Mae symud tuag at wasanaethau iechyd a gofal ataliol yn hanfodol. Fel y nodwyd yn adroddiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol: *'Mae gan y system iechyd yn arbennig rywfaint o ffordd i fynd o ran cymhwyso ffordd o feddwl sy'n rhoi sylw i genedlaethau'r dyfodol ar draws ei gweithgarwch cynllunio a chyflawni. Mae cyflymu cynnydd dan y Ddeddf yn dechrau â blaenoriaethu atal. Heb newid mwy systematig tuag at atal, bydd cyllidebau'n cael eu disbyddu, ac mae'n debygol y bydd deilliannau'n waeth'.* Rydym yn cefnogi'r datganiad hwn gant y cant. Mae atal yn creu cymunedau iachach, yn helpu pobl i fyw bywydau hirach ac iachach, ac yn lleihau'r pwysau ar

wasanaethau statudol yn yr hirdymor. Fodd bynnag, mae angen adnoddau hirdymor cynaliadwy ar y sector gwirfoddol er mwyn iddo allu chwarae rhan lawn yn yr agenda atal.

10) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y sector gwirfoddol yn cael ei gynnwys wrth weithredu argymhelliad 19 adroddiad y Comisiynydd:

'Dylai cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydweithio, ynghyd â'r sectorau preifat a gwirfoddol, i roi'r model cymdeithasol o iechyd, creu lleoedd a/neu egwyddorion Marmot ar waith i wella'r camau gweithredu ar y penderfynyddion ehangach a lleihau anghydraddoldebau yn eu hardaloedd'.

11) Croesawn y ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i 'wneud Cymru yn 'genedl Marmot'. Fodd bynnag, er mwyn cael y cyfle gorau i lwyddo, rhaid ymgysylltu â'r sector gwirfoddol ar sut mae'r egwyddorion hyn yn cael eu rhoi ar waith.

12) Bydd rhoi egwyddorion Marmot ar waith yn helpu cymunedau a chyrff cyhoeddus i fod yn fwy ymwybodol o'r ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar iechyd unigolyn. Bydd hyn yn arwain at fynediad mwy teg at iechyd a gofal a darpariaeth fwy cyson sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

13) Mae'r sector gwirfoddol wedi bod yn flaenllaw mewn datblygu cymunedol ers blynyddoedd maith. Mae ganddo rôl annibynnol ac unigryw i'w chwarae mewn cynorthwyo pobl a chymunedau i ffynnu.

Mae presgripsiynu cymdeithasol wedi dod yn fwy amlwg ledled Cymru. Rydym yn credu y bydd yn chwarae rôl bwysig wrth roi egwyddorion Marmot ar waith. Ond, wrth i'r ymwybyddiaeth o bresgripsiynu cymdeithasol gynyddu, felly hefyd mae'r galw. Mae'r mudiadau gwirfoddol sy'n derbyn atgyfeiriadau yn aml yn cael anhawster â chapasiti ac adnoddau. Mae angen cyllid cyson a dibynadwy ar gymunedau a mudiadau llawr gwlad i sicrhau bod y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu yn sefydlog a gwydn.

14) Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gyfathrebu pwysigrwydd cynnwys y gymuned i lwyddiant y Ddeddf i awdurdodau lleol, gan bwysleisio'r angen am gyd-gynhyrchu go iawn (nid ymgynghori yn unig) wrth ddatblygu gwasanaethau. Gall cyd-gynhyrchu gwasanaethau helpu i symud dynameg y pŵer o blaid cymunedau a chreu gwasanaethau cyfartal sy'n ystyriol o ddinasyddion, yn unol ag Egwyddorion Marmot.

15) Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi siarad am sicrhau bod Dangosyddion Llesiant cyrff cyhoeddus yn fwy cydnaws â'r Ddeddf. Byddai hyn yn helpu i greu cymhwysiad mwy cydlynus o'r Ddeddf, a byddai hynny'n cael ei groesawu.

## CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS

16) Rydym yn falch o weld bod y Garreg filltir Genedlaethol i gynyddu canran y bobl sy'n gwirfoddoli o 10% wedi'i chyrraedd. Mae hon yn enghraifft glir o lle mae'r Ddeddf wedi'i rhoi ar waith yn llwyddiannus. Ni allwn gymryd yn ganiataol y bydd y lefel wirfoddoli

bresennol yn cael ei chynnal i mewn i 2050. Rhaid canolbwyntio ymdrechion nawr ar gynnal ac ehangu nifer y bobl sy'n gwirfoddoli yng Nghymru. Dylid cyhoeddi canllawiau i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ymwybodol o'r angen i gynnal nodau unwaith y cânt eu cyrraedd.

17) Dengys tystiolaeth gan Arolwg Cenedlaethol Cymru fod grwpiau penodol, fel pobl iau a phobl anabl, yn llai tebygol o fod yn wirfoddolwyr. Dylai ymdrechion yn y dyfodol ganolbwyntio ar weithrediad llawn y Dull Newydd o Wirfoddoli yng Nghymru, a fyddai'n gwneud gwirfoddoli'n hygyrch i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sicrhau ein bod yn cynnal neu hyd yn oed yn mynd y tu hwnt i darged 2050.

18) Mae diffyg ymddiriedaeth o fewn cymunedau wedi chwarae rhan mewn tanseilio gweithrediad llwyddiannus y Ddeddf. Rydym yn cefnogi'r alwad gan Gomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol i wneud mwy i wella'r ymddiriedaeth mewn cyrff cyhoeddus.

19) Rydym yn credu y gallai'r sector gwirfoddol chwarae rhan dyngedfennol mewn ennyn ymddiriedaeth trwy bontio'r bwlch rhwng dinasyddion a phenderfynwyr. Trwy fod yn agosach at lawr gwlad ac wedi ymwreiddio mewn cymunedau, mae'r sector gwirfoddol mewn sefyllfa unigryw i helpu i adeiladu'r ymddiriedaeth hon. Ond yn aml, mae cyrff cyhoeddus yn camddeall yr hyn y mae'r sector gwirfoddol yn ei wneud yn y gofod hwn.

20) Mynegodd partneriaid y sector eu rhwystredigaeth dros y dulliau o ymgysylltu â'r gymuned a sut roeddent yn credu bod hyn yn tanseilio

gweithrediad y Ddeddf.  Dywedodd cynrychiolydd o gorff seilwaith yn y sector gwirfoddol wrthym fod y sector gwirfoddol yn cael anhawster uchafu llais y dinesydd yn aml oherwydd cefnogaeth annigonol gan benderfynwyr mewn cyrff cyhoeddus. Rhannodd fod cyrff cyhoeddus, yn ei phrofiad hi, wedi bod yn 'amharchu mewnbwn cymunedol' ac yn bell iawn o gyd-gynhyrchu canlyniadau.

21) Gall methu ag ymgynghori'n briodol â chymunedau danseilio'r ymddiriedaeth mewn penderfynwyr. Mae'r diffyg ymddiriedaeth hwn yn caniatáu i gyfranogwyr cynhennus ledaenu'r wybodaeth anghywir, lleihau cydlyniant a chreu sefyllfaoedd tanllyd. Mae hyn yn gwneud cymunedau'n llai cydlynol a chyfartal, ac yn tanseilio Nodau'r Ddeddf.

22) Dylai'r rheini sy'n darparu gwasanaethau ac yn ymhél â dinasyddion bob amser lynu at yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, fel y cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Nid oes digon o dystiolaeth fod pobl yn glynu'n eang at yr Egwyddorion.

23) Mae lle i ehangu pwerau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn iddo gael mwy o drosolwg o sut mae cyrff cyhoeddus yn cynnal ymgysylltiadau cyhoeddus o ran y Ddeddf. Bydd hyn yn cryfhau gweithrediad y Ddeddf ac yn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i fodloni Nodau'r Ddeddf.

24) Mae angen clir i gyflwyno fframwaith mwy cyfarwyddol i gyrff cyhoeddus fel y gallant gyfrannu at Gymru o Gymunedau Cydlynus.

Rydym yn credu mai cael polisi cymunedau wedi'i gyd-gynhyrchu yw'r cam cyntaf.

## CYDWEITHIO A CHYNNWYS

25) Cydweithio yw un o'r Pum Ffordd o Weithio a amlinellir o dan y Ddeddf ac mae'n hanfodol ar gyfer gweithrediad a gwireddiad ei Nodau. Rydym yn pryderu ynghylch anghysondeb yr ymgysylltiad â'r sector gwirfoddol. Mae mudiadau gwirfoddol yn mwynhau cysylltiadau gweithio cryf â chyrff cyhoeddus mewn rhai rhannau o Gymru, ond nid dyma'r achos ym mhobman. Rydym yn poeni bod hyn yn tanseilio gweithrediad y Ddeddf. Er mwyn i'r Ddeddf lwyddo, mae angen gwneud mwy i feithrin gwaith partneriaeth cyson ledled Cymru. Dylai diwygiadau i bwerau'r Comisiynydd a'r Ddeddf yn y maes hwn ganolbwyntio ar rannu arferion gorau, cryfhau rôl y sector gwirfoddol a sicrhau bod pob partner yn cefnogi uchelgeisiau'r Ddeddf yn gyson.

26) Cawsom hefyd wybod nad yw mudiadau partner mewn rhai fforymau, fel Byrddau partneriaeth Rhanbarthol (RPBs) a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs), yn gwbl ymrwymedig i'r broses gydweithredol a ddisgwylir gan y Ddeddf. Myfyriodd Jess Bickerton, Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS), nad yw rhai cyrff cyhoeddus sy'n dod i gyfarfodydd PSB yn ymhél yn llwyr â'r trafodaethau o fewn y PSB. Nododd adroddiad blynyddol PSB Sir Benfro, a amlygodd y pryderon hyn. Gall methiant rhai partneriaid i gyfrannu mewn fforymau fel PSBs fod yn rhwystr i roi'r Ddeddf ar waith yn llwyddiannus, Gall hyn adlewyrchu

diffyg dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen gan gyrff cyhoeddus o dan y Ddeddf.

27) Mae lle i edrych ar ble mae'r Ddeddf yn gweithio'n fwy effeithiol a rhannu arferion gorau ledled Cymru. Mae angen mwy o waith craffu ffurfiol ar fforymau partneriaeth yng Nghymru i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol. Bydd hyn yn helpu i gryfhau'r gwaith o orfodi'r Ddeddf. Yn ei dro, bydd uchelgeisiau'r Ddeddf yn cael ei ddeall a dylai pob partner fod yn cyfrannu at y broses i'r un graddau.

## CYLLID A SEFYDLOGRWYDD

28) Fel y nodwyd yn ein hymateb i'r ymgynghoriad yn 2020 ar rwystrau i weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus, rydym yn cefnogi datblygiad ffrydiau cyllido sydd wedi'u dynodi i Nodau Llesiant penodol (a ddewisir trwy ymgynghoriad ac ymgysylltiad). Credwn y byddai hyn yn rhoi canolbwynt i bartneriaid weithio tuag ato. Byddai hefyd yn gatalydd ar gyfer datblygu partneriaethau mwy ffurfiol ar draws sectorau er mwyn gwireddu'r Nodau hynny.

29) Dywedodd partneriaid y sector wrthym am effaith cyllid tymor byr ar y gallu i fodloni Nodau'r Ddeddf. Amlygodd Jess Bickerton, Prif Swyddog Gweithredol PAVS, sut roedd cyllid tymor byr wedi tanseilio effaith ataliol hirdymor posibl nifer o ddarnau o waith. Nododd '*nid oes cwmpas i naill ai barhau â'r gwaith na'i ailadrodd*'. Yn aml, mae natur tymor byr llawer o ffrydiau incwm yn atal darparwyr gwasanaethau rhag gwneud penderfyniadau nawr sydd â'r nod o gyflwyno buddion yn yr hirdymor. Mae hwn yn wrthgyferbyniad i

Nodau'r Ddeddf ac yn chwarae rôl fawr mewn tanseilio ei gweithrediad llwyddiannus.

30) Pan fydd cyrff cyhoeddus a chyllidwyr eraill yn ystyried rhoi adnoddau i'r sector gwirfoddol, rhaid iddynt lynu at y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a ddiweddarwyd yn ddiweddar i helpu i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn wirioneddol gynaliadwy. Mae trefniadau cyllido tymor byr yn creu ansefydlogrwydd i fudiadau gwirfoddol, eu staff a'u gwirfoddolwyr, ac mae hyn yn cyfrannu at y rheswm pam y mae staff yn gadael eu rolau a gwasanaethau yn cael eu gorfodi i gau. Gall glynu at y Cod Ymarfer helpu i rwystro hyn.

31) Nodwyd heriau hefyd o ran y cyllid ar gyfer gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar atal a sut nad yw hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf. Nododd Heidi Bennet, Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO), broblemau yr oedd wedi'u profi gyda chyllid seiliedig ar atal a glustnodwyd: *'Mae 20% o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) i fod i gael ei glustnodi ar gyfer darparwyr yn y sector gwirfoddol. Fodd bynnag, mae pryder bod symiau a glustnodwyd yn cael eu dehongli ar brydiau fel lefel gyllido uchaf yn hytrach na lefel gyllido isaf.'* Aeth ymlaen i ddweud nad oedd bob amser yn glir pa mor effeithiol oedd cyllid wedi'i glustnodi yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau ataliol. Oherwydd y rhesymau hyn, er ein bod yn cefnogi argymhelliad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am gyllid ataliol wedi'i glustnodi, mae'n rhaid iddo ddod â chanllawiau a throsolwg clir er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael yr effaith ataliol priodol.

## CYMRU SY'N FWY CYFARTAL

32) Nid oes unrhyw gysylltiadau ar hyn o bryd rhwng y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a gall hyn ddim ond fod yn niweidiol i nifer o Nodau Llesiant, gan gynnwys, ymhlith rhai eraill, Cymru Iachach, Cymru o Gymunedau Cydlynus a Chymru sy'n fwy Cyfartal. Rhaid i'r cysylltiadau rhwng y ddau ddarn hyn o waith fod yn fwy diriaethol er mwyn sicrhau y gall y Cynllun Gweithredu LHDTC+, fel y mae'n nodi, '*gefnogi holl bobl LHDTC+ Cymru i fyw eu bywydau i'r eithaf: i fod yn iach, yn hapus, a theimlo'n ddiogel*'. Byddai'n ddoeth gwneud ychydig o waith ar ddiweddaru'r Cynllun Gweithredu a diwygio'r Ddeddf yn y maes hwn.

33) Fodd bynnag, rydym yn falch o weld bod y Strategaeth Iechyd Meddwl yn gwneud cysylltiadau uniongyrchol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys nodi pa fesurau perfformiad yn y Strategaeth sydd hefyd yn Ddangosyddion Cenedlaethol Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

34) Rydym yn bryderus i weld bod y lefelau unigrwydd yng Nghymru yn parhau i fod yn uchel. Credwn y dylid rhoi sylw penodol i ddod o hyd i'r unigolyn hwnnw sy'n Ddu, Asiaidd neu'n rhan o grŵp Lleiafrifoedd Ethnig sy'n ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi profi unigrwydd na rhywun sy'n Wyn. Mae hyn yn tanseilio'r uchelgais ar gyfer Cymru Iachach, Cymru sy'n fwy Cyfartal a Chymru o Gymunedau Cydlynus.

35) Trwy ymgysylltu â'r sector, rydym wedi gweld eu bod yn teimlo bod diffyg atebolrwydd o ran y Ddeddf. Nid oes unrhyw ganlyniadau ar hyn o bryd i gyrff nad ydynt yn ystyried anghenion cenedlaethau'r

dyfodol wrth wneud penderfyniadau. Fel y nodwyd mewn paragraff cynt, dylid ystyried galluogi pwerau gorfodi'r Comisiynydd, mewn ymgynghoriad â chyrff a nodwyd o dan y Ddeddf.

36) Mae nifer o fannau lle gellid cryfhau canllawiau'r Ddeddf er mwyn sicrhau bod y diben yn fwy eglur:

- Mae angen canllawiau clir ynghylch sut mae'n cysylltu â meysydd polisi a deddfwriaeth eraill – e.e. y gwaith iechyd a gofal a wneir gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs).
- Mae fframwaith clir o ran y Saith Nod Llesiant, ond yn ôl pob golwg, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn effeithiol mewn cynlluniau ehangach. Gallai mwy o ganllawiau ar weithredu'r fframwaith fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr gwasanaethau.
- Dylai'r canllawiau gynnwys gwybodaeth am sut gall cyrff cyhoeddus wneud cymunedau yn fwy ymwybodol o'r Ddeddf, a sut gellir herio cyrff cyhoeddus i gadw ati.

## CASGLIAD

37) Yn gryno, mae CGGC yn parhau i fod yn gefnogol tu hwnt o'r Ddeddf, ei huchelgais a'i photensial i ddylanwadu'n bositif ar y canlyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ar draws amrediad eang o ddangosyddion.

38) Cydnabyddwn, fodd bynnag, nad yw'r Ddeddf wedi cyflwyno'r newid trawsnewidiol ar y raddfa y bwriadwyd yn wreiddiol

39) I wireddu'r potensial hwnnw – gan gydnabod rhai o'r heriau sylfaenol yn ei deg mlynedd gyntaf – mae angen cryfhau elfennau o'r

Ddeddf trwy ystyried amrediad o bwerau estynedig, grymuso a gweithredu ystyrlon; byddai adolygiad o bwerau Comisiynwyr eraill yn ddefnyddiol o ran deall sut maen nhw wedi'u cymhwyso a'u heffaith.

40) Heb ddiwygiad strategol, mae perygl y bydd y Ddeddf yn wynebu heriau pellach o ran sut yr ystyrir ei heffeithiolrwydd a'i pherthnasedd wrth wneud polisïau cyhoeddus.

41) Serch yr her adeiladol a'r meysydd i'w hystyried a nodwyd yn yr ymateb hwn, mae CGGC a chyrff y sector gwirfoddol ledled Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn galluogi'r Ddeddf i gyrraedd ei photensial llawn.

42) Byddai CGGC yn croesawu cyfle i drafod y materion hyn ymhellach gydag Aelodau o'r Senedd neu swyddogion yn ôl y gofyn.

*David Cook*
*Swyddog Prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol CGGC*
[redacted]

*Shaun Bendle*
*Swyddog Polisi a Mewnwelediadau CGGC*
[redacted]

*Mehefin 2025*